# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD GWENER, 1AF RHAGFYR, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**NODER**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, plis cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 23/11/23)

# PWYLLGOR CYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

## AELODAETH

**Cyngor Gwynedd**
Cynghorwyr:
Elfed Wyn ap Elwyn
Louise Hughes
Elin Hywel
Anne Lloyd Jones
Eryl Jones-Williams
Gwilym Jones
Dewi Owen
Gwynfor Owen
Richard Glyn Roberts
Sedd wag – Plaid Cymru

Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Amgylchedd

**Cyngor Sir Ceredigion**
Sedd wag
Cyngor Sir Powys
Cynghorydd J M Williams

**Aelod Cyfetholedig:**

| | |
|---|---|
| Aled Williams | Ysgol Ardudwy |
| Aled Jones-Griffith | Coleg Meirion Dwyfor – Grwp Llandrillo Menai |
| Ann Elias | Cyngor Sir Ceredigion |
| Chris Wilson | Cyngor Sir Ceredigion |
| Claire Britton | Rheilffordd Ffestiniog |
| Claire Williams | Partneriaeth Rheilffordd Cambrian |
| Cynghorydd Meryl Roberts | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cynghorydd Alun W Evans | Cynrychiolydd Meirionnydd Un Llais Cymru |
| Sedd wag | Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru |
| Cynghorydd Trevor Roberts | Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth |
| David Crunkhorn | Trenau Arriva Cymru |
| David Thorp | Ysgol Uwchradd Tywyn |
| Delwyn Evans Grwp | Mynediad Meirionnydd |
| Joyce Watson | Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Liz Saville Roberts | Aelod Seneddol Llyw Prydain - Dwyfor Meirionnydd |
| Mabon ap Gwynfor | Aelod Senedd Dwyfor Meirionnydd |
| Cefin Campbell | Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Roger Goodhew | Cymdeithas Teithwyr Amwythig - Aberystwyth |
| Lorraine Simkiss | Rheilffordd Talyllyn |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Gail Jones | Trafnidiaeth Cymru |
| Charlotte Harries | Network Rail |
| Tomos Roberts | Network Rail |
| Rhian Williams | Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd<br>Cyngor Gwynedd |

Cynrychiolaeth gan Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2023/24

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2023/24

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried

**6. COFNODION** 5 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 31 Mawrth 2023 fel rhai cywir

**7. DERBYN DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU**

I dderbyn diweddariad gan gynrychiolwyr

- Network Rail
- Trafnidiaeth Cymru
- Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig

**8. CWESTIYNAU FFURFIOL** 13

I dderbyn ymateb i gwestiynau ffurfiol a dderbyniwyd

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

**31 Mawrth 2023**

**Presenoldeb:**

**Yn bresennol:**

Cyng. Dewi Owen (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd)

Cyng. Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd - Cyngor Gwynedd)

Liz Saville Roberts (AS Dwyfor Meirionnydd)
Shane Brennan (Swyddfa AS Dwyfor Meirionnydd)
Cyng. Meryl Roberts, (Cynrychiolydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
Lorraine Simkiss (Rheilffordd Tal-y-llyn)
Cyng. J M Williams (Cyngor Sir Powys)

Sara Crombie (Network Rail)
Ben Travis (Network Rail)
Gareth Yates (Network Rail)
Gail Jones (Trafnidiaeth Cymru) - GJ

Rhian Williams (Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd – Cyngor Gwynedd)
Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth Cyngor Gwynedd)

1. **YMDDIHEURIADAU:**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mabon ap Gwynfor (AS Dwyfor Meirionnydd)**,** Llio Hughes (Rheolwr Swyddfa Plaid Cymru – Senedd Cymru), Ann Elias (Cyngor Sir Ceredigion), Cyng. Trevor Roberts (Rheilffordd Aberystwyth/Amwythig), Clare Williams (Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian) a David Thorp (Ysgol Uwchradd Tywyn)

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 18 Tachwedd 2022 fel rhai cywir

**5. DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU**

**NETWORK RAIL**

Croesawyd Ben Perkins (Rheolwr Prosiect), Gareth Yates (Rheolwr Prosiect) a Sara Crombie (Rheolwr Cyfathrebu Network Rail) i'r cyfarfod

**Diweddariad ar uwchraddio traphont Abermaw**

Cyflwynwyd lluniau a ffeithiau allweddol ar y gwaith ar y draphont gan nodi bod y gwaith pren bellach wedi ei gwblhau ar gwaith dur ar ddechrau. Nodwyd na fydd dim newid i ddyluniad y bont wreiddiol - strwythurau dur newydd yn cael eu hadeiladu gan gwmni o Doncaster fydd yn cael eu cludo fesul darn i Abermaw ar ddechrau'r Haf. Bydd y bont yn cau rhwng 01-09-23 a 25-11-23 i gwblhau'r gwaith (gan fanteisio ar gwblhau gwaith atgyweirio ychwanegol ar y rheilffordd tra wedi cau)

**Diweddariad ar draphont Aberdyfi**

Adroddwyd, fel traphont Abermaw bod angen adnewyddu'r strwythur yn llawn a'r gwaith yn cael ei gwblhau mewn dwy ran i osgoi aflonyddwch amgylcheddol. Bydd y bont yn cau rhwng 01-09-23 a 31-10-23.

Diolchwyd am y diweddariad a gwerthfawrogwyd y buddsoddiad yn lleol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â galluogi mynediad at waith traphont Aberdyfi, nodwyd bod cynllun mynediad at y safle wedi cael ei gymeradwyo. Bydd y mynediad o ochr Ceredigion i'r aber gyda thrafodaethau eisoes wedi eu cynnal gyda thirfeddianwyr . Mewn ymateb i sylw pellach ynglŷn ag ail gyfeirio Llwybr yr Arfordir i fynd dros y bont yn hytrach na dros y mynyddoedd, nodwyd nad oedd hyn yn bosib oherwydd bod y bont yn rhy gul.

Mewn ymateb i siom bod y rheilffordd yn cau ar ddechrau mis Medi a hynny yn effeithio ar ddigwyddiadau sydd wedi eu trefnu yn lleol yn ystod y cyfnod yma, nodwyd, er yn derbyn yr effaith ar y tymor gwyliau a digwyddiadau lleol bod rhaid sicrhau balans gyda mynediad ecolegol a'r angen am gyfnod amser o 12 wythnos i wneud y gwaith (amodau caeth ar draphont Dyfi oherwydd gwyddau sydd yn cael eu gwarchod).

Mewn ymateb i sylw ynglŷn a darpariaeth bysiau yn ystod y cyfnod cau, nodwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Trafnidiaeth Cymru. Unwaith bydd trefniadau wedi eu cadarnhau bydd modd rhannu'r wybodaeth. Mewn ymateb,

nodwyd bod angen sicrhau gwasanaeth bysiau digonol ar gyfer digwyddiadau lleol e.e., Gŵyl Gwrw Harlech
**Angen trefnu cyfarfod gyda’ Trafnidiaeth Cymru i drafod darpariaeth bysiau digonol**.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â’r amserlen, gan dderbyn bod y gwaith yn heriol ac amodau tywydd yn cael effaith, nodwyd bod y tywydd wedi’i raglennu i mewn i’r amserlen a bod gwaith o adeiladu’r gwaith dur yn datblygu yn dda. Ategwyd, bydd y bont yn cael ei chludo mewn darnau ar gefn lori i safle Morfa Madog ddiwedd Mai gydag ymarferiad o adeiladu’r bont wedi ei gynnal yn Doncaster cyn hynny. Cadarnhawyd nad oeddynt yn edrych ar gau’r bont wedi mis Tachwedd. Awgrymwyd cynnal ymweliad safle fel bod modd i’r Aelodau weld y gwaith.

Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â goblygiadau cludo’r gwaith dur yn ystod tymor gwyliau, nodwyd y bydd y gwaith cludo yn golygu rhyddhau rhybudd cludiant a’r cwmni cludo yn gwneud pob ymgais i osgoi amseroedd prysur, creu cyn lleied o dagfeydd a gwneud y daith mor gost effeithiol a phosib.
**Cais i Network Rail rannu gwybodaeth a chadw cysylltiad agos gyda’r Harbwrfeistr ac Aelodau Lleol fel bod modd lleihau effaith ar y cyhoedd.**

**TRAFNIDIAETH CYMRU**

Croesawyd Gail Jones, Trafnidiaeth Cymru i’r cyfarfod i gyflwyno diweddariad ar weithgareddau Trafnidiaeth Cymru.

- Bod Trafnidiaeth Cymru wedi tynnu nifer o drenau Dosbarth 175 allan o wasanaeth dros dro er mwyn cynnal gwaith gwirio a chynnal a chadw yn dilyn rhai problemau mecanyddol diweddar. Amlygwyd bod y gwaith gwirio wedi canfod bod angen atgyweirio rhai o'r trenau cyn iddynt ddychwelyd i wasanaeth. O ganlyniad, mae’n debygol y bydd tarfu ar wasanaethau teithwyr yn parhau tan ddechrau mis Ebrill. Hyn yn cael effaith ar drenau bore i Abermaw – gwasanaeth bys wedi ei drefnu
- Bod y gwaith o osod diffibrilwyr achub bywyd yng ngorsafoedd rheilffordd wedi ei gwblhau a bod rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth gydag ysgolion wedi ei drefnu. Unrhyw un sydd â diddordeb pellach i gysylltu gyda GJ
- Cyhoeddi bod Jo Edwards wedi ei phenodi fel Swyddog Cyswllt Ysgolion – bydd JE yn gyfrifol am sicrhau bod disgyblion sy'n mynychu Ysgol Tywyn ac Ysgol Ardudwy yn gwneud hynny yn ddiogel, bod disgyblion yn ymddwyn yn briodol ar y trenau, ac yn cynnal ymweliadau gyda’r ysgolion i drafod diogelwch rheilffordd.
- Cyflwyno trenau 197 - trenau 2 gerbyd. Er bod capasiti seddau'r cerbydau hyn yn llai na’r cerbydau presennol, bod y cerbydau 197 yn caniatáu mynediad i wahanol ddefnyddwyr - mwy o le i gadair olwyn, mobility scooters, beics a phramiau. Ategwyd na all Trafnidiaeth Cymru redeg trenau gyda mwy na dau gerbyd ar Reilffordd Arfordir y Cambrian

ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau seilwaith presennol (platfformau byr a chroesfannau rheilffordd wrth ymyl gorsafoedd) - nid yw buddsoddi mewn seilwaith wedi'i ddatganoli - Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdano.
- Gwaith da yn cael ei wneud rhwng Rheilffordd Cymunedol a Cherddwyr Cymru gyda theithiau cerdded i deuluoedd wedi eu trefnu

Diolchwyd am y diweddariad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag annog defnydd trenau ar gyfer cyrraedd Eisteddfod Genedlaethol Haf 2023 ac o ganlyniad sicrhau bod darpariaeth ychwanegol ar gyfer ymwelwyr, nodwyd, ar Reilffordd Arfordir y Cambrian a Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru bydd Trafnidiaeth Cymru yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o gyflwyno cerbydau ychwanegol i gefnogi teithiau / adegau prysur – (fel arfer yn ystod misoedd yr haf). Nodwyd bod cynllun peilot wedi ei dreialu'n llwyddiannus, e.e, yn ystod cyngherddau a gemau rygbi yng Nghaerdydd. Os caiff ei gyflwyno ar Reilffordd Arfordir y Cambrian a Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru bydd angen cydweithio gyda'r Sir i gasglu adborth hanfodol i sicrhau'r strwythur a'i lwyddiant. Ategwyd bod Lowri Joyce Lowri.Joyce@tfw.wales yn gweithio ar fanylion teithiau penodol i'r Eisteddfod Genedlaethol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chyflwyno cerbydau 197 a bod maint y platfform yn cyfyngu defnydd o fwy na dau gerbyd, nodwyd bod modd herio elfen diogelwch y drysau ar y trenau a chyflwyno pedwar cerbyd yn ystod amseroedd prysur.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag os yw nifer y teithwyr wedi dychwelyd i nifer cyn covid, nodwyd bod cynnydd wedi ei weld, ond nad oedd wedi cyrraedd lefelau cyn covid. Gyda buddsoddi pellach mewn cyfleusterau ar y trenau, y gobaith yw gweld cynnydd mewn defnyddwyr.

Sylwadau a materion eraill a godwyd yn ystod y drafodaeth:
- Yn croesawu buddsoddiad Trafnidiaeth Cymru yn yr ardal
- Cais i osod camera ar loches ym Mhenrhyndeudraeth

**HEDDLU TRAFNIDIAETH BRYDEINIG**

Nid oedd cynrychiolydd o Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig yn bresennol i gyflwyno adroddiad ac nad oedd ymateb i'r cais cyfarfod wedi ei dderbyn gan Yr Arolygydd Karl Anderson. Awgrymwyd bod adrannau gwahanol o'r Heddlu yn gyfrifol am ddiogelwch Rheilffordd y Cambrian gyda Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig yn gyfrifol am y llinell hyd at Harlech a Heddlu Gogledd Cymru (Bangor) yn gyfrifol am y llinell o Harlech i Bwllheli.
**Gwnaed cais i ganfod mwy o wybodaeth fyddai yn cadarnhau'r trefniant yma**

Diolchwyd am y diweddariadau

Dymunwyd diolch i Philip Caldwell (Rheolwr Croesfan Lleol Network Rail) am ei waith arbennig a'i barodrwydd i ymateb i geisiadau am wybodaeth diogelwch bob amser.

## 6. YMATEB I GWESTIYNAU FFURFIOL

### Cyngor Cymuned Llangelynnin

Cwestiwn i Network Rail NR): Hoffai Cyngor Cymuned Llangelynnin ofyn y cwestiwn i NR ac unrhyw barti perthnasol arall ynghylch pryd y gall gwaith ddechrau ar Allt Friog Hill A493 parthed y wal ffin /rhwystr damwain, gan fod hyn wedi'i amserlennu i gychwyn yn Chwarter 1 o 2023, (rydym bron ar ddiwedd y cyfnod erbyn hyn) Mae rheolaeth traffig wedi bod ar waith ers cryn amser bellach a dim arwydd o unrhyw waith wedi ei wneud.

Ategodd Y Cynghorydd Louise Hughes (Aelod Lleol) bod y sefyllfa wedi bod yn destun pryder i'r ardal ers bron i 10 mlynedd ac er bod trafodaethau ac asesiadau yn cael eu cwblhau, nid yw'r gwaith wedi dechrau.

Ateb: NR yn dal yn ymrwymedig i wneud y gwaith atgyweirio i'r wal ar Allt Friog Fodd bynnag, bod rhai datblygiadau dros yr wythnosau diwethaf wedi newid elfennau o'r gwaith roeddynt yn bwriadu ei wneud. Daeth i'r amlwg, wrth edrych trwy hen ddogfennau, fod llythyr yn dyddio'n ôl i 1976 yn nodi y bydd NR yn parhau i gynnal a chadw'r wal derfyn, ond bod y rhwystr damwain ar yr A493 yn eiddo i Cyngor Gwynedd a'r Cyngor felly yn gyfrifol am ei gynnal. Ategwyd bod Tîm Eiddo NR wedi cysylltu â Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd Cyngor Gwynedd, i geisio trafod y mater. Er na fydd hyn yn effeithio cynlluniau NR i atgyweirio'r wal, bydd yn newid sgôp y gwaith ac felly byddent ond yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr asedau sydd o fewn eu perchnogaeth.

O ran y broses, nodwyd bod NR wrthi yn cwblhau dyluniadau ac yn adolygu'r costau. Wedi sicrhau cyllid digonol i gyflawni'r prosiect bydd angen gosod amserlen i gwblhau'r gwaith. Awgrymwyd cynnal galwad Teams neu Zoom gyda chynrychiolwyr o ardal Friog - Cyngor Cymuned Llangelynnin, Cyngor Cymuned Arthog ac Aelodau'r wardiau priodol i drafod yn fanylach gyda Thîm Asedau NR

Nododd y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd) y buasai'n cysylltu gyda Phennaeth Priffyrdd, Peirianneg a YGC am ddiweddariad o safbwynt y Cyngor.

Nododd Y Cyng. Louise Hughes y byddai'n croesawu gwahoddiad i gyfarfod Teams / Zoom i drafod ymhellach ac o'i dymuniad i gael ei chynnwys mewn unrhyw ohebiaeth pellach. Roedd hefyd yn awyddus i wahodd Aelod Cabinet Amgylchedd ac Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC am ymweliad safle.

### Cyngor Cymuned Llanbedr

Cwestiwn: Hoffwn wybod os a phryd fydd Gorsaf Drên Llanbedr yn cael ei adnewyddu. Diolchwn fod yr orsaf wedi cael ei phaentio yn ddiweddar.

Ateb Trafnidiaeth Cymru (TC): Nid oes unrhyw ddiweddariad mewn perthynas â gwella cyfleusterau gorsaf Llanbedr. Mae'r holl orsafoedd wedi'u cynnwys mewn Cynllun Integredig a bod bwriad ymweld i gwblhau gwaith ail-frandio, arwyddion a gwelliannau i asedau gorsafoedd h.y. seddi, llochesi ac ati. Fodd bynnag, nid oes cyllid wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd i symud ymlaen ar hyn.

Mewn ymateb, nododd yr Aelod Lleol, gyda Llywodraeth Cymru wedi gwrthod ffordd osgoi i Lanbedr, bod angen uwchraddio a gwella cyfleusterau gorsaf Llanbedr.

Cwestiwn: Rydym fel Cyngor Cymuned wedi gwneud cais am fin baw cwn ger yr orsaf – gan Gyngor Gwynedd. Pe baem yn llwyddiannus gyda hwn, a fydd yna siawns cael bin sbwriel ar yr orsaf?

Ateb TC: Bod ymateb i'r cais gyda Rheolwr yr Orsaf, Mr Dave Crunkhorn. Bydd angen adolygu'r sefyllfa pan fydd y bin baw cŵn yn ei le.

Ategodd yr Aelod Cabinet y byddai'n tynnu sylw at y mater i Bennaeth Adran Priffyrdd gan nodi y byddai TC yn fodlon rhoi'r bin ysbwriel yn ei ôl pe bai'r Cyngor yn gosod bin baw ci pwrpasol gerllaw.

Cwestiwn: Bod nifer o'r Cynghorwyr sydd wedi mabwysiadu'r Orsaf yn Llanbedr yn awyddus i gael atebion yn ôl parthed eu sylwadau maent yn eu hanfon bob pythefnos. A fydd hyn yn debyg o ddigwydd?

Ateb TC: Cwestiwn i'r Tîm Rheilffyrdd Cymunedol – y Rheolwr Gorsaf yn delio â cheisiadau'r mabwysiadwyr

Cwestiwn: Adnabyddir yr hen Orsaf yma fel Halt Talwrn Bach yn y gorffennol. Beth yw posibilrwydd adennill yr hen enw yma?

Ateb TC: Wedi holi swyddogion perthnasol Trafnidiaeth Cymru ymddengys mai'r ateb yw na. Nodwyd bod newid enw gorsaf yn rhy gymhleth o lawer, ac nid yw'n fater y byddai Trafnidiaeth Cymru yn ei gymeradwyo.

Cwestiwn: Ymddengys bod y canllaw pren sydd yma wedi pydru.

Ateb: Siaradwyd â gwasanaethau rheilffordd Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â hyn. Bu iddynt ymweld â'r safle 29 Mawrth 2023 - y canllaw bellach wedi'i atgyweirio.

Cwestiwn NR: Hefyd wedi derbyn cwyn bod yr arwydd rhaglen trên yn rhy uchel i bawb ei ddarllen.

Ateb: Angen rhywfaint o eglurder ynghylch pa arwyddion y cyfeirir atynt? Os mai arwyddion gerllaw'r ffordd y cyfeirir atynt hwy, ni ellid gwneud llawer gyda'r

arwyddion hynny gan eu bod yn sefydlog. Er hynny, nodwyd bod y wybodaeth yn cael ei ail adrodd yn yr orsaf sydd rhyw 20 llath i ffwrdd

**Cyngor Tref Criccieth**

Cwestiwn: Pam bod angen talu ffi gweinyddu o £10 y tocyn i gael ad-daliad hyd yn oed pan mae trenau wedi eu canslo gan y gwasanaeth e.e, oherwydd y tywydd?

Ateb TC: Nid yw TC yn codi ffi weinyddol nac unrhyw ffi ar deithwyr sydd wedi hawlio iawndal am drên sydd wedi'i ohirio neu wedi'i ganslo; yn ogystal nid yw TC yn codi ffi pan fydd cwsmeriaid yn hawlio iawndal.

Mae 'Trainline' (nid TC) yn codi ffi archebu o £10.00 ac nid ffi hawlio gan nad ydynt yn cynnig iawndal am deithiau – gwerthwyr yn unig ydynt

Mae TC yn codi ffi weinyddol os oes gan rywun docyn papur ac yn gwneud cais am ad-daliad - nid yw hyn yn berthnasol os bydd y tocyn wedi ei brynu ar-lein.

Mae TC yn codi ffi weinyddol os yw teithwyr eisiau newid manylion eu tocyn e.e. tocyn ymlaen llaw.

Nid oes ffi weinyddol nac unrhyw ffi ar gyfer teithwyr sydd wedi hawlio iawndal am drên sydd wedi'i ohirio neu wedi'i ganslo.

Mae'n bwysig nodi nad yw ad-daliad ac iawndal yr un peth.

Cwestiwn: Does dim ffens rhwng Teras Cambrian a'r rheilffordd, dim ond ychydig o wifren.

Ateb NR: Wedi bod mewn cysylltiad â Rheolwr Croesfan Rheilffordd Criccieth sydd wedi bod i'r safle. Nodwyd bod y ffens bresennol, sy'n ffens postyn a gwifren, yn un eithaf cyffredin o amgylch ffiniau rheilffordd, ond mae'r tîm wedi ymweld â'r safle 31 Mawrth 23 i drafod beth sydd yn bosib. Bydd modd rhoi diweddariad o'r sefyllfa yn dilyn yr ymweliad safle.

Cwestiwn: Mae'r ffens haearn pigfain ger y groesfan reilffordd wedi torri ac yn cael ei gweld fel perygl.

Ateb NR: Wedi siarad â Rheolwr Croesfan sydd wedi bod i'r safle. Bydd y ffens wen sydd wedi pydru yn cael ei disodli gan ffens newydd i sicrhau bod y safle yn ddiogel.

Cwestiwn: Mae sbwriel rhwng y rheiliau ger yr orsaf yn gwneud i'r orsaf edrych yn hyll

Ateb NR: Dim yn siŵr lle mae'r sbwriel ond os yw ar y traciau, bydd angen aros am 'block line' ac felly'r gwaith wedi ei gofnodi gyda Chydlynydd Cynnal a Chadw

yr ardal. Cyswllt hefyd wedi ei wneud gyda Thrafnidiaeth Cymru sydd a thrydydd parti sy'n mynychu'n rheolaidd – angen gwirio pryd fydd eu hymweliad nesaf. Ategwyd ei bod yn anodd iawn cadw rheolaeth o'r sbwriel gan ei fod yn aml yn cael ei chwythu yno.

**Cymdeithas Teithwyr Amwythig - Aberystwyth**

Cwestiwn: A oes modd i'r pwyllgor gyfarfod yn ei leoliad arferol ym Mhorthmadog ar ddyddiad y disgwylir i wasanaethau trên fod yn rhedeg yn arferol yng Nghymru a'r Gororau?

Ateb: Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar yr 2il o Ragfyr 2021 bu i'r Cyngor benderfynu ar yr egwyddor o gynnal cyfarfodydd pwyllgorau ffurfiol yn rhithiol lle bo modd gwneud hynny a chynnal cyfarfodydd hybrid lle bo diddordeb uchel gan y cyhoedd. Mae'r adroddiad yn nodi mai cyfarfodydd y Cyngor Llawn, Cabinet, pwyllgorau craffu a phwyllgor Cynllunio yn unig sy'n cael eu cynnal yn aml leoliad (sef yn hybrid). Bydd yr holl bwyllgorau eraill yn rhithiol llwyr gyda rhai eithriadau megis e.e, Pwyllgor Apêl Cyflogaeth (dibynnol ar gais yr unigolyn). Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion - ystyriaeth pan fo cyfweliadau – rhithiol fel arall Pwyllgorau ac Is Bwyllgorau lle cynhelir gwrandawiadau quasi- farnwriaethol.

Mae'r adroddiad wedi ei fabwysiadu yn sgil gofynion Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n nodi fod yn rhaid sicrhau mynediad o bell i Gynghorwyr i bwyllgorau. Mewn geiriau eraill, nid yw cynnal cyfarfodydd ffurfiol wyneb yn wyneb yn unig yn bosib.

Diolchwyd am y cwestiynau

Diolchwyd i Network Rail ac i Trafnidiaeth Cymru am eu cefnogaeth ac am ymateb i'r materion a godwyd yn y Pwyllgor. Fe'i hanogwyd i sicrhau cyfathrebu clir gyda'r cyhoedd o unrhyw ddigwyddiadau / diweddariadau.

Gofynnodd Rhian Williams (Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd) i Trafnidiaeth Cymru gysylltu yn uniongyrchol gyda'r ysgolion os bydd y rheilffordd yn cau am unrhyw reswm e.e, llifogydd

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 12:00

**CADEIRYDD**

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**1af Rhagfyr 2023**

**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE**
**1st December 2023**

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES** | |
| **Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL**<br><br>**A oes modd paentio stesion Criccieth? Mae Criccieth yn ei Blodau yn gweithio'n galed ar welliannau a chynnal y tiroedd yno a bydde'n hwb mawr cael cotiad o baent i'r stesion er mwyn gwella golwg a chroesawu defnyddwyr yno.**<br><br>**Mae graffiti wedi ymddangos ar rhai o'r pontydd rhwng Criccieth a'r Graig Ddu – a oes modd i chi eu gwaredu?**<br><br>**Diolch yn fawr iawn am eich ystyriaeth.**<br><br>***Can Criccieth station be painted? Criccieth in Bloom is working hard on improvements and maintaining the grounds there, and it would be a great boost if the station could have a coat of paint to improve the look and welcome users there.***<br><br>***Graffiti has appeared on some of the bridges between Criccieth and Graig Ddu - is there a way for you to get rid of them?***<br><br>***Thank you very much for your consideration.*** | |
| **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE** | |
| **Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD** | |
| **Oddiwrth / From:**<br><br>**Cyngor Tref Criccieth** | |
| **I'w dychwelyd at**<br>**To be returned to:** | Lowri Haf Evans<br>Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel, Caernarfon<br>Gwynedd, LL55 1SH<br>01286 679 878<br>lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru |
| **Erbyn / By:** | **13-11-2023** |